

# ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD Mehefin 2017



**Race for Life** – Dyma griw o ddisgyblion yr ysgol yn barod i redeg y ras Race for Life yng Nghaernarfon ar 21 Mai, 2017. Da iawn chi genod.



Mae Medi Harris wedi cael ei dewis ar gyfer y tîm nofio i gystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad yn y Bahamas ym mis Gorffennaf. Llongyfarchiadau mawr iddi a phob Iwc Medi.



Llongyfarchiadau i Emma Buckley ar ddod yn ail yn canu'r delyn yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái ac enillodd Dlws y Telynor mwyaf addawol.



Llongyfarchiadau i Mali Quaek a Jac Humphreys fydd yn cynrychioli Eryri ym Mhencampwriaeth Athletau Cymru yn Aberhonddu ym mis Mehefin. Bydd Mali yn cystadlu yng Nghystadleuaeth y Ddisgen dan 16 oed a bydd Jac yn rhedeg yn y Ras 100m dan 14 oed.



Llongyfarchiadau mawr i Lleucu Lane a ddaeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth Merched dan 16 oed Ras Cader Idris ar yr 20<sup>fed</sup> o Fai, 2017. Dal ati Lleucu!



Cynan Roberts oedd y gorau yn yr Ysgol yng Nghystadleuaeth Her Fathemateg y DU gan dderbyn tystysgrif aur. Bydd hefyd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth genedlaethol pellach. Daeth hefyd yn 1af yn yr ysgol mewn cystadleuaeth gan y Gymdeithas Wyddonol a bu iddo dderbyn ei wobwr yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái. Llongyfarchiadau mawr i ti Cynan.



Gyda diolch i Nigel Hughes am y lluniau uchod.

### **Taith Adran yr Urdd i Baris**

Treuliodd 47 o ddisgyblion Blwyddyn 9 a 10, ynghyd a 5 athro, bum diwrnod, ar ddechrau'r gwyliau Pasg, ar daith Adran yr Urdd yr ysgol i Ffrainc. Cafwyd tywydd bendigedig ar gyfer y croesiad fferi, ac arhosodd y tywydd yn braf ar gyfer y deuddydd cyntaf, yn teithio i lawr i Baris, ac wrth ymweld â'r brifddinas. Ymysg y gweithgareddau a drefnwyd, cafwyd cyfle i ymweld â marchnad leol, mynd i fyny'r Tŵr Montparnasse, a chael taith pleser ar yr afon Seine, cyn cael cyfle i siopa ar y Champs-Élysées ac ymarfer ein Ffrangeg mewn bwytaï yn yr Ardal Lladin.

Ar y diwrnod olaf, doedd y tywydd ddim cystal, wrth ymweld â Pharciau Disney - ond ni wnaeth hyn amharu ar ein mwynhad. Cychwynnwyd adref o Disney am 7:00 o'r gloch ar y nos Lun, ac roeddem adref ym Mhorthmadog erbyn 8:30 y bore canlynol, a phawb wedi blino'n llwyr, ond wedi mwynhau.

Diolch i'r disgyblion a'r staff am wneud y daith yn un bythgofiadwy - edrychwn ymlaen at y daith y flwyddyn nesaf.



